Music Venue Trust

Annwyl Ms Sayed,

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ran y Lleoliadau Cerddoriaeth Llawr Gwlad sy'n aelodau o Gynghrair Lleoliadau Cerddoriaeth Cymru, rhwydwaith o 40 lleoliad cerddoriaeth yng Nghymru sy'n ymroddedig i hyrwyddo doniau newydd o Gymru.

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod y lleoliadau hyn wedi bod yn profi dirywiad parhaus ers degawd, sydd wedi arwain at golli 35% o'r llefydd sydd ar gael i artistiaid chwarae ynddynt yn ystod y degawd diwethaf. Mae hyn wedi arwain at golli lleoliadau eiconig fel Buffalo Bar, Gwdihŵ a'r Parrot, llefydd a oedd yn hollbwysig i yrfaoedd artistiaid o Gymru.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno Rhyddhad Ardrethi Busnes newydd o 50% i Leoliadau Cerddoriaeth Llawr Gwlad. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cael gwared â gwerth £1.7 miliwn o drethi o'r sector, ac yn lleddfu pwysau ariannol ar leoliadau sy'n ei chael yn anodd. Yn anffodus, dim ond ar leoliadau yn Lloegr y mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi ddatganiad dros y penwythnos, a oedd yn nodi:

Mai penderfyniad y llywodraethau perthnasol yn y gweinyddiaethau datganoledig fydd cynnig rhyddhad tebyg yn eu hawdurdodaethau. Bydd y llywodraeth ganolog yn gweithredu Fformiwla Barnett.

Yn fras, mae fformiwla Barnett yn golygu y bydd Gweinyddiaethau Datganoledig yn cael cyllid ychwanegol yn seiliedig ar y canlynol:

- cost y rhyddhad ardrethi a'r cyllid i awdurdodau lleol yn Lloegr
- poblogaeth

Fodd bynnag, penderfyniad y Gweinyddiaethau Datganoledig yn llwyr fydd beth i'w wneud gyda'r cyllid hwnnw.

Yn gryno, gall y rhyddhad ardrethi hwn drwy'r rhaglen hon gael ei ddarparu i Leoliadau Cerddoriaeth Llawr Gwlad yng Nghymru heb ddim cost i'r Cynulliad, awdurdodau lleol na thalwyr trethi lleol.

Mae cofnod o Aelodau Cynulliad yn dweud bod angen cefnogaeth ar Leoliadau Cerddoriaeth Llawr Gwlad, ac mae'r ymchwiliad presennol i gerddoriaeth fyw sy'n cael ei gynnal gan y Cynulliad wedi clywed sawl tro y gellid sicrhau cefnogaeth o'r fath gyda rhyddhad ardrethi. Felly, nawr bod y gost bosib i'r weinyddiaeth ddatganoledig wedi mynd, teimlwn y byddai'r rhyddhad newydd hwn yn cynnig cyfle anhygoel i weithredu i gefnogi'r rhwydwaith hanfodol yma yng Nghymru, i gefnogi artistiaid Cymru a'r cymunedau o'u cwmpas.

Mae'r sector Llawr Gwlad yn farchnad gystadleuol iawn, gyda ffiniau elw tynn iawn ar weithgarwch risg uchel. Yn aml, mae'r sector yn gweithredu ar sail model sy'n ceisio osgoi gormod o golled wrth gefnogi artistiaid ar ddechrau eu gyrfaoedd.

Ein safbwynt ni yw bod Lleoliadau Cerddoriaeth Llawr Gwlad ledled gwledydd Prydain yn haeddu cael gweithredu mewn maes chwarae cytbwys, ac felly rydym yn ysgrifennu atoch chi i ofyn i chi weithredu'r rhyddhad hwn. Bydd methu â chyfateb y rhyddhad ardrethi sy'n cael ei gynnig i leoliadau yn Lloegr yn golygu y bydd Lleoliadau Cerddoriaeth yng Nghymru yn wynebu anfantais gystadleuol. Bydd penderfyniad i

ddarparu'r un rhyddhad i leoliadau yng Nghymru yn cael ei groesawu gan artistiaid a chynulleidfaoedd ledled y wlad.

Gweithredwch i gefnogi'r sîn gerddoriaeth llawr gwlad yng Nghymru.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Dear Ms Sayed,

I am writing to you on behalf of Grassroots Music Venue members of the Welsh Music Venues Alliance, a network of 40 music venues in Wales dedicated to the promotion of new and emerging Welsh talent.

As I am sure you are aware, these venues have suffered a decade long decline, resulting in the loss of 35% of the number of places to available for artists to play in the last decade. This has resulted in the loss of iconic venues such as the Buffalo Bar, Gwidihw and Parrot, places that were instrumental in the careers of Welsh artists.

The UK Government has announced a new 50% Business Rate Relief for Grassroots Music Venues. This announcement removes £1.7million in taxation from the sector and eases financial burdens on over-stretched venues. Regrettably, the scope of this decision currently only impacts on venues based in England. However, HM Treasury issued a statement to us over the weekend as follows:

*It will be for the relevant governments in the devolved administrations to decide whether to offer similar reliefs in their jurisdictions. Central government will apply the Barnett Formula.*

*Broadly, the Barnett formula means that the Devolved Administrations receive additional funding based on:*

- *the cost of the reliefs and funding to local authorities in England*
- *population*

*But the decisions on what to do with that funding are entirely down to the Devolved Administrations.*

The summary of this position is that rate relief through this programme can be delivered to Welsh Grassroots Music Venues at no cost to the Assembly, local authorities or local taxpayers.

Assembly Members are on record as saying that Grassroots Music Venues need support, and the current inquiry into live music being conducted by the Assembly has heard multiple times that such support could be achieved through rate relief. We therefore feel that with the obstacle of the potential cost removed from the devolved administration, this new relief presents an incredible opportunity to take action to support this vital network in Wales, support Welsh artists and the communities around them.

The Grassroots sector is a highly competitive market, with extremely tight margins on high risk activity. Frequently, the sector operates to a model that simply tries to avoid excessive losses when supporting artists at the beginning of their career.

It is our view that Grassroots Music Venues across the UK deserve to be operating within a level playing field, so we are writing to you to ask that you therefore act to implement this relief. A failure to replicate

relief being offered to English venues will place Welsh Venues at a competitive disadvantage. A decision to provide the same relief to Welsh venues will be welcomed by artists and audiences across the country.

Please act to support the grassroots music scene in Wales.